Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff Polisi
Medi 2021

# Llesiant diwylliannol

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yn cynnal asesiadau llesiant ar gyfer eu hardaloedd lleol bob pum mlynedd, yn unol â chylchoedd etholiadau lleol. Gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) gefnogi'r broses hon trwy lunio briffiadau yn edrych ar dueddiadau cenedlaethol a thystiolaeth yn y meysydd canlynol:

- Llesiant diwylliannol;
- Effeithiau COVID-19 a Brexit ar lesiant; a
- Llesiant a chydraddoldeb.

Mae'r briffiad polisi hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Ganolfan ynghylch llesiant diwylliannol.

## Diffinio a chysyniadu llesiant diwylliannol

Mae llesiant diwylliannol yn bwnc sy'n dod i'r amlwg i'w ystyried. Yng Nghymru, mae 'llesiant diwylliannol' wedi'i restru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel un o'r meysydd y mae cyrff cyhoeddus i'w gwella – er nad yw wedi'i ddiffinio.

Mae nifer o ddangosyddion llesiant cenedlaethol yn gysylltiedig â 'llesiant diwylliannol', gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol: cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; gallu siarad Cymraeg; ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol; statws diogelu ac achredu asedau treftadaeth; a chymryd rhan mewn chwaraeon.

Un ffordd o ddeall llesiant diwylliannol yw gwahaniaethu rhwng canlyniadau llesiant diwylliannol i unigolion a llesiant diwylliannol fel nodwedd o gymunedau. Trafodir y dystiolaeth mewn perthynas â'r ddau gysyniad hyn ac fe'i crynhoir yn Ffigur 1.




*Ffigur 1: Y pedwar maes y mae'r briffiad yn eu cwmpasu*

## Nodweddion sy'n cyfrannu at lesiant diwylliannol mewn cymuned

Mae rôl **asedau diwylliannol anniriaethol** yn allweddol i ddeall sut mynegir llesiant diwylliannol mewn cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau ac arferion traddodiadol; iaith a mynegiant diwylliannol; gwybodaeth, sgiliau, normau a gweithgareddau diwylliannol; gwyliau, credoau a defodau; chwaraeon traddodiadol; a chelf a chrefft.

Gall hyrwyddo'r asedau hyn wella llesiant cymunedol a gwella teimladau o falchder cymunedol, hunanhyder diwylliannol a chenedlaethol, ac ymdeimlad o gyd-dynnu a phwrpas.

## Ceir amrywiadau daearyddol o ran presenoldeb neu gyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru

### Sut mae cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn effeithio ar lesiant goddrychol

Mae cyfranogiad neu bresenoldeb mewn **digwyddiadau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth** yn gysylltiedig â lefelau uwch o lesiant goddrychol, er bod hyn yn amrywio yn dibynnu ar y gweithgaredd.

Gall **gwrando ar gerddoriaeth** gynyddu llesiant oedolion ifanc a gall cymryd rhan mewn **gweithgareddau canu mewn grŵp** fod yn arbennig o fuddiol i bobl hŷn.

Gall **cyfranogiad yn y celfyddydau gweledol** gynyddu llesiant ymhlith y rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl drwy ddatblygu cyfalaf cymdeithasol 'creu cwlwm'. Mae hyn yn awgrymu y gallai gweithgareddau grŵp fod yn fwy effeithiol na rhai unigol.

Mae **gweithgareddau treftadaeth** yn gysylltiedig â lefel uwch o lesiant goddrychol. Mae manteision ychwanegol yn gysylltiedig â gweithgareddau treftadaeth ymarferol.

## Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw pob grŵp yn cael mynediad cyfartal i weithgareddau diwylliannol

Gall **gwirfoddoli** gynorthwyo cydlyniant cymdeithasol a chysylltiad yn ogystal â gwella llesiant goddrychol gwirfoddolwyr drwy ffactorau fel ymdeimlad o bwrpas, hyder yn eich galluoedd eich hun, a chysylltiadau cymdeithasol newydd.

Mae **cyfranogiad** rheolaidd **mewn chwaraeon** yn gysylltiedig â gwell iechyd corfforol a meddyliol, a gwelir y cynnydd mwyaf ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â chwaraeon o linell sylfaen isel a phan fydd cyfranogwyr yn cymryd rhan o leiaf bob wythnos.

Mae cymryd rhan mewn **gweithgareddau hamdden awyr agored** yn gysylltiedig â gwell llesiant goddrychol. Mae **gweithgareddau hamdden sy'n seiliedig ar natur** yn cynyddu llesiant wrth reoli ar gyfer ystod o ffactorau demograffig, sy’n awgrymu bod amser ym myd natur yn fuddiol ar ei ben ei hun.

Mae'r **gallu i siarad Cymraeg** yn gysylltiedig â lefel uwch o lesiant goddrychol, cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon, a boddhad mewn bywyd. Nid yw'n eglur pam dylai hyn fod yn wir – mae ymchwil yn awgrymu mai 'ffactor gwaelodol' sy'n gyfrifol.

### Canlyniadau llesiant ar draws grwpiau

Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu nad yw pob grŵp yn cael mynediad at weithgareddau diwylliannol nac yn cymryd rhan ynddynt yn gyfartal. Yn gyffredinol, mae cyfranogiad yn uwch mewn teuluoedd â phlant (5–10 oed) ac ar aelwydydd lle mae un aelod eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Mae cyfranogiad hefyd yn amrywio yn ôl:

- Oedran (gyda chyfraddau'n cynyddu hyd at y rhai dros 75 oed, sef y rhai sy'n lleiaf tebygol o gymryd rhan);
- Statws ariannol (gyda'r rhai ar incwm isel yn lleiaf tebygol o gymryd rhan); ac
- Ethnigrwydd (gyda phobl o gefndiroedd Du neu Asiaidd yn lleiaf tebygol o gymryd rhan).

Mae hyn yn amrywio yn ôl yr union weithgaredd, gyda phobl Du Affricanaidd a Charibïaidd o leiaf mor debygol â phobl Wyn o gymryd rhan mewn dawns neu gerddoriaeth.

Ar lefel gymunedol, mae amrywiadau daearyddol o ran presenoldeb neu gyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ledled

Cymru. Mae angen astudio'r rhain ymhellach gan y gallent adlewyrchu diffyg mynediad at gyfleoedd lleol neu ffactorau eraill fel amddifadedd lleol.

## Prinder tystiolaeth, ansicrwydd a meysydd i'w harchwilio

Bydd yn bwysig bod BGCau yn nodi bylchau yn y dystiolaeth a ble mae'n annigonol yn y maes hwn i lywio eu strategaeth ac addasu'r canfyddiadau yn ôl y sefyllfa leol. Er enghraifft:

- Mae **tueddiadau'r dyfodol** yn y maes hwn yn fater allweddol, gan fod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.
- Nid yw **tystiolaeth a data cadarn** bob amser ar gael ar gyfer ymyriadau, gweithgareddau neu fathau penodol o lesiant.
- Gallai **gwerthuso ac asesu parhaus** helpu i bennu ymhellach y ffactorau sy'n ysgogi lles diwylliannol i unigolion.
- Gofalu bod canfyddiadau lefel uchel yn cael eu **trosi'n ymarfer a'u cysylltu â hynny** yn effeithiol.

## Casgliad

Efallai y bydd BGCau yn dymuno ystyried y canlynol mewn asesiadau llesiant yn y dyfodol a phennu eu hamcanion llesiant:

1. Statws **asedau diwylliannol anniriaethol** yn y gymuned, eu rôl o ran llesiant cymunedol, a sut gellir gwneud defnydd ohonynt i gynyddu llesiant.
2. **Cyfraddau cyfranogiad mewn celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon** ac unrhyw anghydraddoldeb hysbys, a sut gellir mynd i'r afael â hwy.
3. **Cyfleoedd trawsbynciol** i ddefnyddio gweithgareddau diwylliannol neu 'lens' llesiant diwylliannol i ysgogi gwelliannau llesiant mewn meysydd eraill fel iechyd.
4. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i **feithrin llesiant diwylliannol drwy weithgareddau cyfranogol** sy'n datblygu cyfalaf cymdeithasol ac ymdeimlad o le a bod ynghyd.

## Y camau nesaf i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Rydym yn argymell bod BGCau yn:

1. Canfod **arbenigedd lleol** i hwyluso cysylltiadau cymunedol, nodi asedau diwylliannol anniriaethol lleol a chefnogi grwpiau sy'n seiliedig ar fannau a diddordebau.
2. Nodi **darparwyr celfyddydau, diwylliant, gweithgareddau treftadaeth a chwaraeon yn lleol.**
3. **Mapio darparwyr lleol yn erbyn ardaloedd difreintiedig neu lle ceir lefel is o gyfranogiad** a rhoi **ymatebion penodol i leoedd a seiliwyd yn y gymuned** ar waith.
4. Sicrhau bod llesiant diwylliannol yn **rhan o strategaethau economaidd a iechyd cyhoeddus** er mwyn mwyafu potensial manteision trawsbynciol.
5. Ystyried **problemau o safbwynt llesiant diwylliannol**, gan fod cefnogi llesiant cymunedol yn gallu cynnig atebion i broblemau eraill.
6. Ystyried **integreiddio eu nodau llesiant** â strategaeth ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.

## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad cyflawn, gweler Price, J. (2021). **Llesiant diwylliannol - WCPP Papur hysbysu tystiolaeth.** Caerdydd: Canolfan Polisïau Cyhoeddus Cymru.



## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk



**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP